Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llandrindod
**Heol Trefonnen**
**Llandrindod**
**Powys**
**LD1 5EP**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/12/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llandrindod yn Llandrindod, Powys. Daw disgyblion o'r dref a'r ardal wledig gyfagos.

Mae'r ysgol wedi'i threfnu yn ddwy ffrwd iaith, ac mae pedwar dosbarth yn y ffrwd cyfrwng Saesneg a'r ffrwd cyfrwng Cymraeg. Mae tua 42% o ddisgyblion yn y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg. Daw un deg pedwar y cant o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith.

Mae 196 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr. Mae disgyblion yn dechrau yn yr ysgol yn ystod tymor eu pedwerydd pen-blwydd. Mae gan ryw 27% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i ffigur Cymru. Mae tua 30% o'r disgyblion ar gofrestr y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn uwchlaw'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru.

Ymddeolodd y pennaeth a oedd wedi bod yn yr ysgol am nifer sylweddol o flynyddoedd ar ddiwedd tymor yr haf 2013. Mae'r pennaeth newydd, a fu gynt yn ddirprwy bennaeth yn yr ysgol, wedi cael ei benodi'n barhaol er canol mis Medi.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol yr Eglwys yng Nghymru yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,841 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd ym Mhowys yw £10,978 a'r isafswm yw £3,102. Mae Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llandrindod yn safle 40 o'r 88 o ysgolion cynradd ym Mhowys o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyflawni safonau gwaith da mewn gwersi ac mewn llyfrau gwaith ar hyn o bryd;
- mae safonau llythrennedd mewn Saesneg yn dda ar y cyfan;
- mae safonau llythrennedd mewn Cymraeg yn dda, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2; ac
- mae ansawdd cyffredinol yr addysgu yn dda.

Fodd bynnag:

- mae deilliannau disgyblion yn yr asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn anghyson ac fe wnaethant ddisgyn yn sylweddol ym mhob maes pwnc yn 2013;
- mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gryn dipyn yn is yn yr asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 na gweddill y garfan;
- nid yw safonau mewn Cymraeg ail iaith, yn enwedig mewn darllen ac ysgrifennu, yn ddigon uchel; ac
- nid yw'r cynllunio ar gyfer dysgu gwell ym meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn ddigon effeithiol.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae arweinwyr yr ysgol wedi creu ethos cadarnhaol yn llwyddiannus ar draws yr ysgol;
- mae'r uwch dîm rheoli yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd trwy hunanarfarnu yn bwrpasol i nodi blaenoriaethau perthnasol ar gyfer gweithredu;
- mae'r ysgol yn datblygu diwylliant o hunanwella parhaus; ac
- mae'r arweinyddiaeth yn dechrau cael effaith ar ddeilliannau disgyblion.

Fodd bynnag:

- nid yw'r arweinyddiaeth wedi cael digon o amser i gael effaith lawn ar ansawdd y dysgu a'r addysgu; ac
- nid yw'r uwch dîm rheoli a chydlynwyr pwnc wedi cael digon o gyfleoedd i weithio gydag aelodau eraill o staff eto er mwyn arwain eu pynciau yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau cyflawniad ar draws yr ysgol, gan roi sylw penodol i ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim

A2 Gwella safonau Cymraeg ail iaith a darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu gallu a'u hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol

A3 Sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn darparu cyfleoedd dysgu gwell, addas ar gyfer disgyblion

A4 Datblygu rôl yr uwch dîm rheoli fel arweinwyr strategol gyda ffocws clir ar godi safonau

A5 Datblygu rôl strategol y corff llywodraethol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae safonau disgyblion wrth gychwyn yn yr ysgol yn amrywio'n fawr, ac mae rhai ohonynt yn dechrau'r ysgol gyda lefelau medrau islaw'r rhai sydd fel arfer yn ddisgwyliedig am eu hoedran, yn enwedig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae disgyblion trwy gydol cyfnod allweddol 2 yn cyflawni safonau gwaith da mewn gwersi ac mewn llyfrau gwaith ar hyn o bryd. Mae hyn yn dangos gwelliant clir o gymharu â deilliannau disgyblion mewn blynyddoedd blaenorol. Mae lleiafrif o ddisgyblion ar draws y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Fodd bynnag, mae safonau mwyafrif y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn disgyn islaw disgwyliadau mewn sesiynau dysgu.

Mae safonau llythrennedd mewn Saesneg yn dda ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda mewn trafodaethau ystafell ddosbarth gan wneud defnydd cynyddol effeithiol o eirfa gyffredinol a geirfa sy'n benodol i bwnc. Maent yn darllen yn dda yn unol â'u hoedran a'u gallu ac yn creu darnau ysgrifennu cynyddol estynedig mewn ystod dda o bynciau ar draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae safonau llythrennedd mewn Cymraeg yn briodol. Mae disgyblion yn cyfrannu'n frwdfrydig mewn sgyrsiau ystafell ddosbarth, maent yn darllen yn briodol ac yn ysgrifennu'n dda mewn ystod dda o arddulliau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau siarad disgyblion yn datblygu'n araf, nid yw medrau darllen ar ddiwedd y sector wedi cael eu datblygu ddigon ac mae ysgrifennu yn gyfyngedig o ran ystod, hyd ac arddulliau.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae ganddynt wybodaeth briodol am ffeithiau rhif a dealltwriaeth dda o gysyniadau mathemategol, y maent yn eu dangos mewn gwaith llafar ac ysgrifenedig fel ei gilydd. Defnyddiant y medrau hyn yn effeithiol i ddatrys problemau mewn ffordd resymegol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau defnyddio eu medrau rhifedd ar lefel briodol i gefnogi gwaith mewn ystod o feysydd pwnc.

Mae disgyblion o gefndiroedd Saesneg yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn gwneud cynnydd da wrth gaffael y Gymraeg, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, ac maent yn sgwrsio'n rhugl ac yn hyderus gydag oedolion a'i gilydd yn Gymraeg.

Mae disgyblion yn y ffrwd cyfrwng Saesneg ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn y Gymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ymateb yn briodol ar lafar yn ystod gwersi, a defnyddiant eirfa yn effeithiol mewn cyd-destunau penodol. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen ac ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi'u datblygu ddigon. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n ymdrechu i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i gyd-destun gwersi Cymraeg, neu'n defnyddio'r

Gymraeg yn achlysurol neu’n ddigymell, er bod mwyafrif ohonynt yn ymateb yn briodol pan fydd oedolyn yn eu cyfarch yn Gymraeg.

Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol tuag at eu targedau.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae canlyniadau asesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn dangos gwelliant yn yr holl feysydd dysgu ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5), ond maent wedi bod islaw’r cyfartaleddau ar gyfer Cymru a’r teulu o ysgolion ym mwyafrif y dangosyddion dros y cyfnod o ddwy flynedd. Mae canlyniadau ar y deilliant uwch yn cymharu’n ffafriol â chyfartaleddau’r teulu a chyfartaleddau cenedlaethol mewn medrau llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg, ond maent islaw’r cyfartaleddau mewn meysydd dysgu eraill. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd yr ysgol yn y 25% gwaelod neu’r 50% isaf bron ym mhob maes dysgu, ar y deilliant disgwyliedig neu’r deilliant uwch dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau asesu ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu’n uwch) wedi bod yn anghyson dros y pum mlynedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae’r ysgol wedi perfformio uwchlaw’r cyfartaleddau ar gyfer y teulu. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae perfformiad wedi bod islaw’r cyfartaledd yn y dangosydd pwnc craidd, Cymraeg a Saesneg. Disgynnodd perfformiad yn sylweddol yn 2013 ym mhob maes pwnc i fod islaw cyfartaleddau’r teulu a chyfartaleddau cenedlaethol. Yn 2013, ar sail canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, rhoddwyd yr ysgol yn y 25% gwaelod o ysgolion tebyg ym mhob maes pwnc ac eithrio Cymraeg, a oedd yn golygu ei bod yn y 50% isaf. Mae nifer y disgyblion sy’n perfformio uwchlaw’r lefel ddisgwyliedig yn agos at gyfartaleddau’r teulu a chyfartaleddau Cymru ar y cyfan, ond disgynnodd i fod yn is ym mhob maes pwnc ac eithrio gwyddoniaeth yn 2013.

Heblaw am 2011, mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cryn dipyn yn is mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 na gweddill y garfan yn gyson.

**Lles: Da**

Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at gadw’n iach a diogel ac maent yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff. Mae pob disgybl yn teimlo’n ddiogel a saff yn yr ysgol.

Mae prydlondeb yn dda ar y cyfan. Mae presenoldeb disgyblion dros y tair blynedd cyn 2011-2012 wedi golygu bod yr ysgol yn y 25% o ysgolion tebyg yn gyson. Dangoswyd gwelliant mewn presenoldeb yn 2011-2012, gan olygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg. Mae ffigurau presenoldeb ar gyfer 2012-2013 yn dangos mwy o welliant bach.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymddygiad da ac agweddau da at ddysgu. Maent yn ystyriol a chwrtais ac maent yn uniaethu’n dda â’i gilydd ac oedolion ac yn canolbwyntio’n dda ar eu tasgau yn ystod gwersi. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n dangos ychydig bach o ymddygiad amhriodol wrth symud o amgylch yr ysgol rhwng

sesiynau dysgu. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae disgyblion wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r strategaethau ymddygiad a ddatblygwyd trwy'r 'Grŵp Lles', a weithiodd i wella ymddygiad a hunan-barch disgyblion.

Mae gan ddisgyblion rôl yn natblygiad yr ysgol trwy'r cyngor ysgol a'r cyngor eco ac maent yn mwynhau ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn. Mae trafodaethau a chamau gweithredu'r cyngor ysgol yn helpu i ffurfio polisïau ac arfer. Mae'r polisi amddiffyn plant, a luniwyd ar y cyd â chynghorwyr ysgol cyfnod allweddol 2, yn enghraifft dda o hyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo y gallant wneud awgrymiadau ar sut i wella'r ysgol.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Dangosant barch, gofal a phryder am bobl eraill ac maent yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn meddu ar y medrau sydd eu hangen i wella'u dysgu eu hunain, gweithio gyda phobl eraill a datrys problemau. Gallant ddatblygu eu syniadau yn briodol i symud ymlaen i'w cyfnod dysgu nesaf.

Trwy ddigwyddiadau cymunedol, fel yr eisteddfod ddwyieithog leol, a phobl yn ymweld â'r ysgol, mae cysylltiad disgyblion â'r gymuned leol yn datblygu'n dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Ym mwyafrif y grwpiau blwyddyn, mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer y cwricwlwm. Mae llawer o athrawon yn datblygu cynlluniau gwaith sy'n darparu profiadau diddorol sy'n aml yn ysgogol. Mewn llawer o achosion, maent yn cydweithio'n dda, gan sicrhau cysondeb mewn darpariaeth ar gyfer dosbarthiadau o'r un grwpiau oedran. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o grwpiau blwyddyn, nid oes digon o gydweithio rhwng athrawon ac mae anghysondeb mewn cynllunio ac ym mhrofiadau dysgu disgyblion.

Er bod darpariaeth meysydd gweithgaredd yn y Cyfnod Sylfaen yn dda ar y cyfan, nid yw'r cynllunio ar gyfer gwella'r ddarpariaeth o fewn y meysydd hynny yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, mae cyfleoedd ar gyfer datblygu dealltwriaeth a medrau disgyblion trwy weithgareddau chwarae yn gyfyngedig ac fe gaiff cynnydd disgyblion ei rwystro o ganlyniad.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol o ran rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith, ac mae hyn yn dechrau dylanwadu ar gynllunio ar draws yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant Cymru yn cynnig cyfleoedd priodol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o arlunwyr o Gymru fel Kyffin Williams a'r arlunydd lleol Thomas Jones, ac agweddau ar hanes a daearyddiaeth Cymru. Cynhelir clybiau amser cinio ac ar ôl yr ysgol sy'n cynnig cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio Cymraeg achlysurol ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd yn gyfyngedig.

Mae dealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd yn datblygu'n dda trwy weithgareddau a drefnir gan glwb eco brwdfrydig.  Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy eu cysylltiadau â phrosiect rhyngwladol, er enghraifft sesiynau dysgu gydag ymwelydd o Wlad Groeg.

**Addysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o wersi yn cynnwys amcanion dysgu clir a thasgau diddorol, sy'n llwyddo i gael sylw bron pob disgybl ac yn adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol.  Mae cwestiynau penagored yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion yn effeithiol ac mae'r rhan fwyaf o wersi yn symud ymlaen ar gyflymder da.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda a chyfoes.  Maent yn cynllunio gweithgareddau yn effeithiol ac mae ganddynt amcanion clir ar gyfer sesiynau a addysgir a phrofiadau dysgu eraill.  Defnyddiant ystod o ddulliau ac adnoddau addysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu helpu i gyflawni yn gyffredinol.  Sefydlwyd perthynas waith dda sy'n meithrin dysgu ac yn annog ymddygiad da.  Mae staff cymorth dysgu yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol.

Mewn ychydig iawn o wersi lle mae'r addysgu yn rhagorol, mae athrawon yn ennyn diddordeb y disgyblion yn effeithiol iawn, maent yn teilwra gwaith yn dda iawn i ystod galluoedd disgyblion ac yn creu perthynas waith dda a chynhyrchiol.  Yn yr ychydig iawn o wersi lle mae diffygion yn amlwg, nid oes cyflymder i wersi, ac nid yw athrawon yn cynnig digon o her i'r disgyblion, nac yn rhoi digon o gyfarwyddyd i fodloni anghenion dysgu penodol disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod addas o strategaethau asesu ar gyfer dysgu.  Mae ymglymiad disgyblion mewn arfarnu eu cynnydd eu hunain yn datblygu'n dda.  Serch hynny, mewn rhai dosbarthiadau, nid yw athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol.  Er enghraifft, mewn rhai gwersi, nid yw athrawon yn rhoi digon o amser i drafod pa mor dda y mae disgyblion wedi cwblhau tasg, gan ddefnyddio meini prawf llwyddiant clir.

Mae systemau olrhain cadarn ar gyfer asesu ar waith, gan gynnwys dadansoddi data perfformiad yn ofalus.  Mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i dargedu disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae ansawdd y marcio ac adborth llafar wedi gwella'n ddiweddar yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ac mae wedi'i seilio ar amcanion dysgu clir.  Mae hyn yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.  At ei gilydd, mae disgyblion yn ymateb yn dda i sylwadau marcio ac adborth.

Mae ansawdd adroddiadau i rieni yn dda ac yn bodloni gofynion statudol.  Rhoddir cyfleoedd defnyddiol a rheolaidd hefyd i rieni drafod cynnydd eu plentyn mewn cyfarfodydd gyda'r athro dosbarth.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae’r ysgol yn gweithredu fel cymuned ofalgar a cheir effaith glir ar les disgyblion. Mae ystod dda o bolisïau priodol ar waith ar gyfer hyrwyddo byw yn iach a lles disgyblion ac i annog disgyblion i gymryd rhan yn eu hysgol a’r gymuned ehangach. Mae’r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r ysgol yn delio’n effeithiol ag unrhyw fwlio trwy ystod o strategaethau sy’n cynnwys ffocws cryf ar les plant. Mae staff yn monitro lles disgyblion yn briodol ac yn gweithredu’n effeithiol ac yn sensitif wrth ymateb i bryderon. Mae gwaith y ‘Grŵp Lles’ a sefydlwyd gan yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol a mesuradwy ar ymddygiad disgyblion. Mae’r grŵp anogaeth yn cynnig cymorth da i ddisgyblion sy’n agored i niwed ac mae ymddygiad disgyblion wedi gwella’n sylweddol o ganlyniad.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol yn cysylltu’n dda iawn ag ystod dda o asiantaethau arbenigol er lles disgyblion. Mae trefniadau nodi clir ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynlluniau addysg unigol yn rhoi targedau clir i ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i wella’u dysgu.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae’r ysgol wedi ymrwymo i greu ethos hapus, croesawgar a chefnogol sy’n trin pob aelod o staff a’r disgyblion yn gyfartal. Mae datblygiad a gwaith y grŵp anogaeth wedi sicrhau deilliannau cadarnhaol ar gyfer disgyblion ag anghenion sylweddol. Mae polisïau, cwricwlwm ac arferion yr ysgol yn effeithiol o ran sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn cael eu trin yn deg a phriodol. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o’u cyfrifoldeb i ddangos parch at bawb.

Mae safle ac adeilad yr ysgol yn cael eu defnyddio’n dda ar y cyfan ar gyfer anghenion y disgyblion. Mae’r adeilad yn cynnig amgylchedd dysgu ac addysgu da ac effeithiol. Fodd bynnag, nid yw’r ardal y tu allan wedi cael ei datblygu’n ddigonol i ateb anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae byrddau arddangos yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am weithgareddau’r ysgol, yn ogystal ag enghreifftiau o waith a chyflawniadau disgyblion.

Yn ddiweddar, mae disgyblion wedi cyfrannu at ddatblygu’r ardal chwarae eang y tu allan ac maent yn helpu i reoli’r ardal yn ystod amser chwarae i sicrhau ei fod yn amgylchedd diogel. Mae’n darparu ystod dda o weithgareddau ar gyfer chwarae i ddisgyblion. Mae pob ardal yn yr ysgol yn lân ac yn cael ei chynnal yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth newydd a'r dirprwy bennaeth dros dro wedi creu ethos cadarnhaol iawn yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae athrawon ac aelodau eraill o staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy, maent yn cydweithio'n dda ac yn gweithio'n dda fel tîm i ddatblygu datganiad newydd o weledigaeth i'r ysgol.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth dros dro yn gweithio'n agos i gefnogi ystod o fentrau i godi safonau a rhoi newidiadau ar waith. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar safonau disgyblion. Mae rolau'r uwch dîm rheoli a chydlynwyr pwnc o ran adolygu dysgu disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth yn dechrau datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi cael digon o gyfleoedd i weithio gydag aelodau eraill o staff eto er mwyn arwain eu pynciau yn effeithiol.

Mae'r corff llywodraethol yn cael gwybodaeth ddefnyddiol am ddata perfformiad. O ganlyniad, mae llywodraethwyr wedi dechrau datblygu dealltwriaeth gliriach o'r modd y mae'r ysgol yn perfformio, a'r hyn y mae angen ei wneud o ran gwella safonau. Fodd bynnag, nid yw cyfrifoldebau llywodraethwyr mewn perthynas â herio perfformiad yr ysgol a chyfrannu at brosesau strategol wedi cael eu datblygu'n ddigonol eto.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn datblygu diwylliant o hunanwella parhaus. Mae'r pennaeth wedi diwygio gweithdrefnau monitro yn effeithiol i gynnwys arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a siarad ag athrawon a disgyblion. Mae gan yr ysgol systemau clir i fonitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth, er nad yw'r systemau hyn bob amser yn canolbwyntio ddigon ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn cymryd rhan yn llawn ym mhob agwedd ar hunanarfarnu yn yr ysgol. Mae'r pennaeth yn ymgynghori â disgyblion a rhieni yn rheolaidd trwy holiaduron. Mae staff yn gwrando ac yn ymateb yn dda iawn i safbwyntiau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Mae'r uwch dîm rheoli yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd trwy'r broses hunanarfarnu yn bwrpasol er mwyn nodi blaenoriaethau perthnasol ar gyfer y cynllun datblygu ysgol.

Mae deilliannau prosesau hunanarfarnu yn llywio blaenoriaethau yn effeithiol yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen fanwl sy'n cynnwys amcanion clir, meini prawf llwyddiant a deilliannau penodol. Mae'n cynnwys llawer o dargedau mesuradwy mewn perthynas â chynnydd disgyblion a gwelliannau mewn safonau, ac mae'n gwneud defnydd da o ddata i nodi blaenoriaethau. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yr ysgol yn arfarnu cynnydd yn ddigon manwl wrth roi blaenoriaethau blaenorol ar waith.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid i gyfoethogi dysgu a lles y disgyblion. Ceir cysylltiadau cryf gyda rhieni a rhoddwyd polisi drws agored ar waith yn effeithiol. Mae cylchlythyrau rheolaidd yn hyrwyddo cyfathrebu da ac yn rhannu gwybodaeth yn dda. Mae’r pennaeth wedi bod yn weithgar yn trefnu mentrau amrywiol a gynlluniwyd i gynorthwyo rhieni a’u hannog i ddod i’r ysgol, er enghraifft llythrennedd teuluol a’r grŵp anogaeth. Mae’r ysgol yn cynnal sesiynau defnyddiol i roi arweiniad i rieni ar sut gallant gynorthwyo eu plant gartref. Mae rhieni’n gwerthfawrogi’r cysylltiadau cyfathrebu gwell.

Mae cysylltiadau da â’r cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae trefniadau effeithiol iawn ar waith ar gyfer cyfnod pontio disgyblion i’r ysgolion cyfun lleol ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgynefino’n gyflym yn eu hysgol newydd. Mae’r ysgol yn ymgymryd â nifer o weithgareddau gwerthfawr gyda’r teulu lleol o ysgolion hefyd, gan gynnwys rheoli ystafell ddosbarth, safoni a chymedroli asesiadau athrawon.

Mae gan yr ysgol rôl weithredol yn y gymuned leol, er enghraifft trwy gefnogi a gweithio’n agos gyda theuluoedd sy’n agored i niwed. Mae penodi’r rheolwr cymunedol yn hanfodol i bartneriaeth lwyddiannus y gymuned a’r ysgol.

Mae’r ysgol yn cysylltu’n dda â llawer o asiantaethau cymorth allanol yn yr awdurdod lleol a’r consortiwm. Mae uwch arweinwyr yn mynd ati i gael cymorth gan yr awdurdod lleol ac yn gweithredu yn unol ag unrhyw gyngor a roddir.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae nifer ddigonol o athrawon yn yr ysgol ac mae ganddynt gymwysterau priodol ar gyfer yr oedrannau y maent yn eu haddysgu. Caiff athrawon eu cefnogi’n effeithiol gan gynorthwywyr cymorth dysgu, sy’n rhoi cymorth priodol i unigolion neu grwpiau o ddisgyblion mewn gwersi.

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion statudol o ran baich gwaith athrawon. Mae trefniadau priodol o ran darparu ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad ac maent yn helpu i nodi anghenion hyfforddi’r pennaeth a’r staff addysgu.

Caiff yr ysgol ei defnyddio gan amrywiaeth o grwpiau allanol, sy’n sicrhau bod agenda bro’r ysgol yn cael ei bodloni.

Mae’r ysgol wedi gwneud cynnydd priodol wrth weithio gydag athrawon ac ysgolion eraill yn yr ardal i wella agweddau ar ddarpariaeth a safonau.

Mae’r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb flynyddol yr ysgol yn ofalus. Mae’r pennaeth, y llywodraethwyr a swyddog cyllid yr awdurdod lleol yn monitro’r gyllideb yn effeithiol.

Yng ngoleuni’r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae’r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae canlyniadau asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn dangos gwelliant ym mhob maes dysgu, ond maent yn parhau i fod islaw'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru a'r teulu o ysgolion yn gyffredinol. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol yn parhau i fod yn y 50% isaf neu'r 25% gwaelod ym mhob maes dysgu, heblaw am ddatblygiad mathemategol sy'n ei rhoi yn y 50% uchaf.

Disgynnodd canran y disgyblion sy'n cyflawni ar y deilliant uwch na'r disgwyl islaw'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu o ysgolion a Chymru, ac o gymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg, roeddent yn y 50% isaf ar gyfer llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg a datblygiad personol a chymdeithasol. Roedd llythrennedd a chyfathrebu Saesneg a datblygiad mathemategol yn y 25% gwaelod.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canlyniadau asesiadau ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu'n uwch) wedi bod yn anghyson dros y pum mlynedd diwethaf, ond maent yn gyffredinol islaw'r cyfartaledd cenedlaethol yn y dangosydd pwnc craidd, Cymraeg a Saesneg. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol yn gyffredinol. Dros yr un cyfnod, mae'r ysgol wedi perfformio uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu yn gyffredinol. Disgynnodd perfformiad yn 2013 yn sylweddol ym mhob maes pwnc i fod islaw cyfartaleddau'r teulu a chyfartaleddau cenedlaethol. Yn 2013, ar sail canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, rhoddwyd yr ysgol yn y 25% gwaelod o ysgolion tebyg ym mhob maes pwnc heblaw Cymraeg, a oedd yn golygu ei bod yn y 50% isaf. Yn y tair blynedd flaenorol, roedd yr ysgol yn y 50% uchaf yn y rhan fwyaf o feysydd pwnc yn gyffredinol, heblaw am Gymraeg a Saesneg a oedd yn golygu ei bod yn y 50% isaf.

Mae nifer y disgyblion sy'n perfformio uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2 yn agos at gyfartaleddau'r teulu a Chymru yn gyffredinol, ond disgynnodd yn is na'r rhain ym mhob maes pwnc ac eithrio gwyddoniaeth yn 2013. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail lefelau hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad mewn Cymraeg a gwyddoniaeth yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf, roedd perfformiad mewn mathemateg yn golygu ei bod yn y 50% isaf, a pherfformiad mewn Saesneg yn golygu ei bod yn y 25% gwaelod. Mae hyn yn dangos gostyngiad ym mhob maes pwnc, ac eithrio gwyddoniaeth, o'r tair blynedd flaenorol.

Nid oes unrhyw batrwm cylchol o fechgyn yn tangyflawni o gymharu â merched yn ystod y blynyddoedd diwethaf naill ai yn y Cyfnod Sylfaen neu yng nghyfnod allweddol 2.

Heblaw am 2011, mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n sylweddol is mewn asesiadau yn gyson ar ddiwedd asesiadau cyfnod allweddol 2 na gweddill y garfan.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Pob Disgybl)

mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 97 | 94<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 93 | 87<br>94%<br>92% | 6<br>6%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 96 | 92<br>96%<br>97% | 4<br>4%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 97 | 97<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 97 | 91<br>94%<br>96% | 6<br>6%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 92 | 84<br>91%<br>96% | 8<br>9%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 97 | 97<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 97 | 94<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 95 | 85<br>89%<br>91% | 10<br>11%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 95 | 91<br>96%<br>95% | 4<br>4%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiadur on i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 86 | 52<br>60%<br>78% | 34<br>40%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 97 | 78<br>80%<br>84% | 19<br>20%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 31 | 13 | 17 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 42% | 55% | 0% | 3% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 31 | 19 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 61% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 31 | 24 | 7 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 31 | 16 | 15 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 52% | 48% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 30 | 7 | 18 | 2 | 1 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 23% | 60% | 7% | 3% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 31 | 17 | 13 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 55% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 31 | 16 | 12 | 0 | 0 | 3 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei (g)orau. |
| | | 52% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 31 | 15 | 14 | 0 | 1 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 48% | 45% | 0% | 3% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 31 | 14 | 13 | 1 | 0 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 45% | 42% | 3% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 31 | 16 | 14 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 52% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 31 | 18 | 12 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 58% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 30 | 15 | 9 | 1 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 30% | 3% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 30 | 13 | 15 | 0 | 1 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 43% | 50% | 0% | 3% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 31 | 19 | 10 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 61% | 32% | 6% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 31 | 14 | 11 | 1 | 2 | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 35% | 3% | 6% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 31 | 17 | 12 | 1 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 3% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 28 | 12 | 9 | 1 | 0 | 6 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 43% | 32% | 4% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 31 | 16 | 13 | 0 | 1 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 52% | 42% | 0% | 3% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 30 | 15 | 13 | 1 | 1 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 50% | 43% | 3% | 3% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Carolyn Jane Thomas | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Gwenda Easton | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jessica Stuart-Lyons | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.